**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**8 Chwefror 2016**

**AMCANION GWELLA 2016-17**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Rhoi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad yr Awdurdod ar ei amcanion gwella drafft ar gyfer 2016-17; a chynnig sail ar gyfer Cynllun Gwella drafft terfynol 2016-17 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ar 21 Mawrth 2016.

**Cyflwyniad**

2 Yn Chwefror 2015, cafodd Gweithgor Cynllun Gwella'r Awdurdod amserlen ar gyfer cyhoeddi ei Gynllun Gwella 2016-17 yn unol â'r cyfarwyddyd statudol.

3 Roedd yr amserlen yn cynnwys cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Amcanion Gwella drafft cyn i Gynllun Gwella 2016-17 gael ei gymeradwyo'n derfynol ym mis Mawrth 2016.

4 Dylai'r ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw roi sail i'r Panel Gweithredol wneud argymhelliad nawr ynglŷn â chynnwys Cynllun Gwella drafft 2016-17 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2016.

5 Dan y rheoliadau statudol, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei gynlluniau gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y mis Rhagfyr yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi. Yn ymarferol, dehonglir hyn fel cyn diwedd mis Mawrth.

## Gwybodaeth

6 Daeth y dadansoddiad o'r ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus 2015 (Atodiad 1) i'r casgliad fod y rhan fwyaf yn cytuno â'r amcanion drafft a amlinellir gan yr Awdurdod.

## Argymhelliad

7 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo llunio drafft terfynol o Gynllun Gwella 2016-17 ar sail y pedwar amcan gwella a amlinellir isod i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, a'u cyhoeddi cyn 1 Ebrill 2016:

**Amcan 1**
"Cynorthwyo i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel drwy atal marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi". Byddai hyn yn cael ei gario drosodd o'r blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i'r amcan hwn.

**Amcan 2**
"Gan gydnabod y gostyngiad a ddisgwylir yng nghyllid llywodraeth leol, bydd yr Awdurdod yn datblygu strategaeth ariannol 3 blynedd lle bydd rhewi'r gyllideb yn egwyddor ganolog."
Byddai hyn yn arwydd o fwriad yr Awdurdod i gadw ei ardoll ar ei gynghorau sir cyfansoddol ar yr un lefel tan 2019/20, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, i ymgorffori unrhyw gynnydd anochel ei hun.

**Amcan 3**
"Bydd yr Awdurdod yn ail-ystyried ei adnoddau i gyfateb i risg. Bydd yn gweithredu model newydd o ddarparu adnoddau sy'n sicrhau bod 20 o leiaf o griwiau tân wedi'u lleoli'n strategol ar gael yng Ngogledd Cymru ar adegau o risg cymharol is, ac o leiaf 38 ar adegau o risg cymharol uwch."
Byddai hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod yr Awdurdod yn cydnabod yr angen i ddarparu gwasanaethau tân ac achub cynaliadwy a fforddiadwy yng Ngogledd Cymru.

**Amcan 4**
"Bydd yr Awdurdod yn chwilio am gyfleoedd i amrywio rôl diffoddwyr tân a chynnig gwasanaethau ychwanegol i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru."
Byddai hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i ddiogelwch y cyhoedd yng Ngogledd Cymru, a'i ddymuniad i barhau i ymestyn ei bortffolio o wasanaethau drwy arloesi a chydweithio.